# Addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr

## Beth yw addasiadau rhesymol?

Yma yn IOPC, rydym wedi ymrwymo i greu proses recriwtio a dethol gynhwysol a hygyrch. Rydym yn deall bod amgylchiadau pawb yn wahanol, ac rydym am sicrhau eich bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn cael cefnogaeth drwy gydol y broses. Os oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'ch helpu chi i gymryd rhan yn llawn trwy gynnig **addasiadau rhesymol**, rhowch wybod i ni.

Mae addasiadau rhesymol yn gyfystyr â newidiadau maw cyflogwr yn eu gwneud er mwyn cael gwared â neu leihau unrhyw anfanteision sy'n gysylltiedig â anabledd rhywun. Fel cyflogwr cynhwysol, rydym yn deall bod ymgeiswyr sydd ag anghenion eraill, megis ond heb fod yn gyfyngedig i, cyfrifoldebau gofalu neu gymryd rhan mewn dathliadau crefyddol, hefyd yn gallu bod angen addasiadau. Mae addasiadau rhesymol yn benodol i'r person unigol.

Rydym ni wir yn eich annog chi i gysylltu â ni i roi cyfle i ni eich helpu chi i ddangos eich potensial llawn. **Nid oes angen i chi ddarparu diagnosis ffurfiol na thystiolaeth meddygol**, dim ond dweud wrthym beth fyddai o gymorth i chi.

Rydym yn croesawi ymgeiswyr o bob cefndir ac rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd lle gall pawb ffynnu, gan ein bod ni'n deall bod hyn yn ein gwneud ni'n gryfach fel sefydliad.

## Pa addasiadau sy'n gallu cael eu gwneud?

Mae enghreifftiau o addasiadau gallwn eu gwneud gynnwys:

- Amser ychwanegol i gwblhau tasgau/cyfweliadau.
- Cymorth os yw'r prawf neu'r asesiad yn cael ei gyflwyno'n rhithiol, megis capsiynau caeedig trwy MS Teams.
- Opsiwn i dawelu'r cyfwelwyr sydd ddim yn siarad er mwyn lleihau gorlwytho.
- Darparu dogfennau mewn fformatau hygyrch (print mawr, Braille, neu ddigidol).
- Cwestiynau'r cyfweliad o flaen llaw os oes angen amser prosesu.

- Y cyfle i gael toriad yn ystod y cyfweliad, er enghraifft cyn symud ymlaen i gwestiynau ynglŷn â chryfderau. Mae'r cwestiynau hyn yn wahanol o ran arddull, felly efallai y bydd angen amser ychwanegol arnoch i gynorthwyo gyda newid rhwng tasgau.
- Rhannu cwestiynau cyfweliad yn y bar sgwrsio (neu ar bapur os yn cyfweld wyneb i wyneb).
- Sicrhau bod lle parcio hygyrch wedi'i neilltuo os yn cyfweld wyneb i wyneb.
- Darparu dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain
- Dewis o gyfweliadau ar amseroedd penodol sy'n cymryd mewn i ystyriaeth apwyntiadau meddygol, cyfrifoldebau gofal, dathliadau crefyddol neu lefelau egni.

# Gofyn am addasiadau rhesymol

Rydym yn ymdrechu i wella'n barhaus, ac rydym yn agored i drafod unrhyw addasiadau rhesymol pellach a all eich helpu chi i ddangos eich hunan orau. Cysylltwch â ni ar recruitment@policeconduct.gov.uk i drafod unrhyw addasiadau y gallech fod angen. Bydd eich cais yn cael ei drin gyda gofal a chyfrinachedd; ein nod yw caniatáu i'ch potensial ddisgleirio trwodd.

Rydym eisoes wedi integreiddio rhai newidiadau i'n proses recriwtio a dethol i sicrhau ein bod ni'n gynhwysol. Er enghraifft:

- Rydym yn deall bod gwneud newidiadau munud olaf i asesiadau neu gyfweliadau yn gallu achosi gorbryder, felly rydym yn anelu i roi digon o rybydd os oes rhaid i ni aildrefnu.
- Rydym yn amlinellu pob cam o'r broses ymgeisio/recriwtio yn glir ac yn gosod disgwyliadau clir yn syth o fewn ein hysbysebion swydd.
- Rydym yn aneli i sicrhau bod ein cwestiynau cyfweld yn glir, yn strwythuredig, ac yn ganolbwyntiedig, fel bod ymgeiswyr niwrowahanol yn gallu perfformio'u gorau.
- O fewn gwahoddiadau calendr MS Teams byddwn yn rhestri'r drefn bydd y cwestiynau yn cael eu gofyn ynddynt er mwyn cael gwared ag unrhyw ansicrwydd neu straen cyn mynychu asesiadau neu gyfweliadau.
- Mae'n fandadol i'n paneli cyfweld gwblhau'r hyfforddiant Proffiliau Llwyddiant a Cydraddoldeb, Amrywiaeth & Cynhwysiant, sy'n gorchuddio pynciau megis rhagfarn, braint, profiadau bywyd ac addasiadau rhesymol.
- Rydym yn meindio am greu proses deg a chroesawgar, ac felly rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ein paneli cyfweld yn cynnwyd pobl o bob oedran, cefndiroedd ethnig, a rhywiau.

**Ni fydd gofyn am addasiadau yn effeithio ar ganlyniad eich cyfweliad nac ar sut caiff eich cais ei ystyried.** Ein nod yw sicrhau bod chi'n cael y cyfle gorau i arddangos eich sgiliau a'ch profiadau.

Os byddwch yn rhannu eich diagnosis gyda ni, ni fydd hyn yn cael ei rannu gyda'r panel cyfweld na'r asesydd. Rydym dim ond yn rhannu addasiadau gyda'r panel lle mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt.

Nid oes angen rhannu addasiadau fel anfon cwestiynau o flaen llaw gyda'r panel: felly weithiau ni fyddan nhw’n gwybod eich bod chi wedi gofyn am unrhyw addasiadau o gwbl.

Cyhoeddwyd Chwefror 2026

© IOPC 2026

OGL This is licensed under the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated.

This does not include material belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.